



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Set data HWYLUSO

Adroddiad Dadansoddi Lefel Uchel

1. Cyflwyniad

Mae darparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain yn dwyn llawer o fanteision i lesiant meddyliol a chorfforol unigolion ac hefyd yn helpu i leihau pwysau ar wasanaethau rheng flaen y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae darparu addasiadau tai yn cefnogi amcanion ein agenda polisi a nodwyd yn 'Ffyniant i Bawb'¹ a 'Cymru Iachach',² drwy alluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a derbyn gwasanaethau yn nes adref.

Cafodd 'HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol'³ ei lunio i wella'r trefniadau presennol drwy ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr weithio yn yr un ffordd a monitro cyflawniad mewn fformat safonol. Nod y rhaglen oedd llenwi bylchau yn y ddarpariaeth i sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth gael mynediad at wasanaeth addasu tai wedi'i symleiddio. I helpu i hwyluso hyn mae hyd at £4 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru wedi ei ddarparu'n flynyddol i awdurdodau lleol o 2016 i ddatblygu darpariaethau addasu yn eu hardaloedd mewn partneriaeth â'u rhanddeiliaid allweddol ac i ddarparu adnoddau ychwanegol i helpu pobl i fyw'n annibynnol.

Cafodd 'Hwyluso – Cymorth i Fyw'n Annibynnol' ei ddatblygu a'i gyflwyno yn ystod 2016/2017 mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Nod y rhaglen HWYLUSO oedd mynd i'r afael â'r prif bryderon a'r meysydd ar gyfer eu gwella y tynnwyd sylw atynt yn yr Adolygiad o addasiadau ar gyfer byw'n Annibynnol⁴.

Bu i'r gwaith HWYLUSO arwain cynllun a gyflwynodd gasglu data ar draws y sector cymhorthion ac addasiadau. Cipiodd y prosiect wybodaeth am bob addasiad, nid yn unig Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, felly derbyniwyd ffurflenni oddi wrth

¹ <https://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=en>

² <https://gov.wales/topics/health/publications/healthier-wales/?lang=en>

³ <https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-quality/aids-and-adaptations/support-for-independent-living/?lang=en>

⁴ <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/02/150123-review-independent-living-adaptions-en.pdf>

Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sefydliad Trosglwyddiadau Gwirfoddol Mawr (LSVT) ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio ac roedd yn cwmpasu ystod o ffynonellau cyllido (Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys, Grant Addasiadau Ffisegol, y Gronfa Gofal Integredig ayb). Roedd y data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o Fedi 2016 i Ragfyr 2017, ac fe'i casglwyd mewn amrywiol fformatau, gan gynnwys nifer fawr o ddatganiadau ar ffurflenni papur.

O ganlyniad i gasglu'r data derbyniwyd dros 21,000 o gyflwyniadau, fodd bynnag ar ôl tynnu dyblygiadau gostyngwyd y nifer i dros 12,000 o gyflwyniadau. Mae hyn yn ymateb sylweddol, a hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi bod yn darparu cyflwyniadau.

Nod yr adroddiad hwn yw darparu dadansoddiad lefel uchel o'r data a gasglwyd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bylchau ac yn ein hysbysu am y gwersi a ddysgwyd ynghylch sut y gellir gwella casglu a monitro data ar gyfer casgliadau yn y dyfodol.

Dengys y pwyntiau allweddol:

- Y cynhaliwyd dadansoddiad lefel uchel oherwydd cyfyngiadau'r data. Ni chyflwynwyd manylion am y darparwr gwasanaeth ar gyfer 43% o'r ymatebion a dderbyniwyd, er enghraifft.
- Ni chafodd yr holl ddata y gofynnwyd amdano ei ddarparu ym mhob ymateb, gan olygu bylchau sylweddol yn y data
- Oherwydd y bylchau hyn rhaid trin y canfyddiadau'n ofalus ac ni ellir ystyried eu bod yn cynrychioli'r sector yn ei gyfanrwydd. Byddai angen data pellach a mwy cyflawn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth
- Mae'r categori Awdurdodau Lleol yn cynnwys 5 darparwr, y categori Cymdeithasau Tai yn cynnwys 11 darparwr a 2 ddarparwr LSVT. Oherwydd y niferoedd isel, ni ellir dweud bod y canfyddiadau'n gynrychioliadol a gallai cymariaethau rhwng y categorïau fod yn gamarweiniol.
- Yr oedd darparwyr Gofal a Thrwsio ledled Cymru'n gyfrifol am 43 y cant o'r 12,399 o addasiadau a gofnodwyd fel rhan o'r astudiaeth beilot.
- Ar sail manylion am 11,987 o addasiadau, cost gyfartalog gymedrig addasiad yw £465, tra bo'r gost gyfartalog canolrif yn £100⁵.

⁵ Mae'r cyfartaledd canolrif (h.y. y gwerth canol) yn gynrychiolaeth decach o gost arferol addasiad. Mae hyn oherwydd nad yw dosbarthiad y costau'n gymesur – ceir nifer fach o addasiadau sy'n costio'n sylweddol fwy nac eraill, sydd o'r herwydd yn sgiwio'r cyfartaledd cymedrig.

- Ar gyfer oddeutu hanner (50 y cant) o'r 11,987 o addasiadau y darparwyd costau ar y cyfer, yr oedd cyfanswm cost yr addasiad yn £100 neu lai.
- Mae cyfartaledd yr amser a gymerir i gwblhau addasiad yn tueddu i gynyddu wrth i gostau gynyddu. Ar gyfer addasiadau'n costio £50 neu lai, cyfartaledd yr amser a gymerwyd oedd oddeutu 12 diwrnod, ar gyfer rhai'n costio rhwng £250 - £500 yr oedd yn 23 diwrnod, ac ar gyfer rhai'n costio £2,500 - £5,000 yr oedd yr amser a gymerwyd yn codi i 150 diwrnod.
- O'r 12,371 o addasiadau (lle y cofnodwyd y ddeiliadaeth) cafodd y mwyafrif (88 y cant, 10,911 o addasiadau) eu gwneud yn nhai perchen-feddianwyr. Gwnaed 5 y cant arall (266 o addasiadau) mewn tai a oedd yn eiddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a 3 y cant (352 addasiad) mewn cartrefi a oedd yn eiddo i awdurdodau lleol.
- O'r 12,371 o addasiadau y darparwyd gwybodaeth cyllido ar eu cyfer, cafodd y gyfran fwyaf (44 y cant) eu hariannu drwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys (RRAP). Yr oedd cyfartaledd cost addasiadau'n amrywio o oddeutu £6,900 ar gyfer addasiadau gorfodol dan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl i ddim ond £128 am addasiadau a ariannwyd drwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys.
- Roedd dros dri chwarter yr addasiadau⁶ (78 y cant) a oedd yn galw am asesiad gan therapydd galwedigaethol yn addasiadau mân neu fân iawn. Yr oedd 21 y cant arall yn addasiadau canolig eu maint a dim ond 1 y cant (33 addasiad) oedd yn rhai mawr.
- O'r 1,744 o addasiadau a oedd yn galluogi rhyddhau o ysbyty, yr oedd y mwyafrif, 69 y cant (1,198 addasiad), wedi'u cyllido drwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys (RRAP), 16 y cant (279 addasiad) wedi'u cyllido drwy'r "Gronfa Gofal Integredig (ICF) ac 8 y cant (139 addasiad) drwy gyllid awdurdodau lleol ar wahân i'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) gorfodol.
<https://gov.wales/topics/health/socialcare/working/icf/?lang=en>

⁶ Ar sail 2,982 o addasiadau lle yr oedd therapydd galwedigaethol yn ofynnol a chategori/maint yr addasiad hefyd wedi'i gofnodi.

2. Cyfyngiadau'r Data

Yr oedd y cynllun peilot yn un gwirfoddol ac ni ddarparwyd data gan bob sefydliad. Hefyd, ni wnaeth llawer o'r rhai a gyflwynodd ddata ddarparu manylion eu sefydliad felly allwn ni ddim canfod tarddiad llawer o'r ffurflenni. Mae hyn wedi golygu na allai'r dadansoddiad nodi'r rhai na wnaethant gyflwyno unrhyw wybodaeth a allai arwain at duedd tuag at rhai darparwyr penodol. Er enghraifft, yr oedd asiantaethau Gofal a Thrwsio'n cyfrif am dros 40% o'r holl ddata y gwyddys pwy a'i ddarparodd ac mae felly'n dylanwadu'n gryf ar gyfansymiau cyffredinol darparwyr.

Darparodd sawl darparwr gofnodion rhannol, a olygodd gofnodion deublyg yn y pen draw. Er bod y broses wirio'n anelu at gael gwared â llawer o'r rhain, mae'n debygol y byddai rhai'n parhau.

Nid oedd unrhyw wiriadau dilysu mewn ffurflenni wedi'u hymgorffori yn y broses casglu data ac felly ni ddatryswyd unrhyw faterion o ran data wrth gofnodi'r data. Er enghraifft, nid peth hawdd fyddai cywiro materion fel data ar goll, categoreiddio cywir a'r amser a gymerwyd i gwblhau addasiadau'n ôl-weithredol, gan arwain at gamgymeriadau tebygol yn y data.

Yn fyr, dim ond ffigurau lefel uchel a ddarperir yma, ond rhaid bod yn ofalus o'r rhain o hyd gan mai dim ond dangosol ydynt ar hyn o bryd.

Yn y dyfodol agos mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wella'r dulliau a'r broses o gasglu data gan greu fformat electronig yn unig, a fydd yn helpu i symleiddio'r data a gaiff ei gyflwyno a'i gasglu, a fydd o gymorth i sicrhau y bydd y data a gaiff ei gasglu yn fwy cyson a chadarn. Mae swyddogion yn ystyried opsiynau ar gyfer casglu data yn y tymor hwy a allai ddarparu ffurflenni unigoleddig a chaniatáu cymhariaeth â data ehangach y GIG a thai.

3. Darparwyr

Tabl 1. Nifer yr addasiadau a gofnodwyd yn ôl math o ddarparwr (a) (b)

Categori Darparwr/Cyflwynwr	Nifer yr addasiadau a gofnodwyd	Cyfartaledd o'r holl addasiadau a gofnodwyd
Dim darparwr wedi'i enwi	5,348	43.1
Gofal a Thrwsio	5,367	43.3
Awdurdod Lleol	1,068	8.6
Cymdeithas Tai	410	3.3
LSVT	153	1.3
Cyfanswm	12,399	56.9

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Yn seiliedig ar 12,399 o addasiadau

(b) Mae'r categori Awdurdodau Lleol yn cynnwys 5 darparwr, y categori Cymdeithasau Tai yn cynnwys 11 darparwr a 2 ddarparwr LSVT.

- O'r ffurflenni a dderbyniwyd cofnodwyd cyfanswm o 12,399 o addasiadau yn ystod yr astudiaeth beilot. Ar gyfer 43.1 o'r rhain (5,348 o gofnodion addasiadau) nid oedd enw'r darparwr wedi'i nodi.
- Mae Gofal a Thrwsio yn un darparwr yn cynnwys un categori. Mae categorïau eraill yn cynnwys nifer o ddarparwyr unigol: Mae'r categori Awdurdodau Lleol yn cynnwys pum darparwr, y categori Cymdeithasau Tai yn cynnwys un ar ddeg darparwr a dau ddarparwr LSVT. Ni ellir dweud fod y categorïau hyn yn gynrychioliadol o'u sector. Mae hyn, ynghyd â'r bylchau yn y data'n golygu na ddylid gwneud cymariaethau.
- Yr oedd darparwyr Gofal a Thrwsio ledled Cymru yn cyfrif am dros 4 allan o 10 cofnod (5,367, 43.3 y cant)
- Yr oedd y 1,684 o addasiadau a oedd yn weddill wedi'u cofnodi gan 20 darparwr arall ac yn ymestyn o gyfanswm o 339 a gofnodwyd gan un darparwr i ddim ond tri addasiad a gofnodwyd gan un arall.

4. Costau Addasiadau

Tabl 2. Cyfartaledd cost addasiadau yn ôl math o ddarparwr (a) (b)

Categori Darparwr/Cyflwynwr	Nifer yr addasiadau a gofnodwyd	Cyfartaledd (Cymedrig) cost fesul addasiad £	Cost canolrif fesul addasiad £	Cost isaf a gofnodwyd £	Cost uchaf a gofnodwyd £
Dim darparwr wedi'i enwi	5,068	288	98	0	36,000
Gofal a Thrwsio i gyd	5,358	155	90	0	8,785
Awdurdod Lleol	1,066	1,969	336	0	38,289
Cymdeithas Tai	401	2,647	2,060	0	45,258
LSVT	74	1,532	297	27	14,361
Cyfanswm		465	100	0	45,258

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru


(a) Ar sail costau a ddarparwyd ar gyfer 11,967 o addasiadau

(b) Mae'r categori Awdurdodau Lleol yn cynnwys 5 darparwr, y categori Cymdeithasau Tai yn cynnwys 11 darparwr a 2 ddarparwr LSVT.

- Ar sail manylion am 11,987 o addasiadau, cost gyfartalog gymedrig addasiad yw £465, tra bo'r gost canolrif cyfartalog yn £100⁷.
- Nododd darparwyr Gofal a Thrwsio'r gost canolrif isaf fesul addasiad sef £90 tra y nododd Cymdeithasau Tai y gost canolrif uchaf sef £2,060
- Y gost uchaf a gofnodwyd am addasiad oedd gan Gymdeithas Tai sef £45,258.
- Ni chofnodwyd cost o gwbl yng nghyswllt 412 o addasiadau.

⁷ Mae'r cyfartaledd canolrif (h.y. y gwerth canol) yn gynrychiolaeth decach o gost arferol addasiad. Mae hyn oherwydd nad yw dosbarthiad y costau'n gymesur – ceir nifer fach o addasiadau sy'n costio'n sylweddol fwy nac eraill, sydd o'r herwydd yn sgiwio'r cyfartaledd cymedrig.

Siart 1. Nifer yr addasiadau yn ôl cyfanswm cost (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Ar sail costau a ddarparwyd am 11,987 o addasiadau

- Ar gyfer oddeutu hanner (50 y cant) o'r 11,987 o addasiadau y ddarparwyd costau ar y cyfer, yr oedd cyfanswm cost yr addasiad yn £100 neu lai.
- Yr oedd naw allan o ddeg addasiad (91%) yn costio £500 .

Tabl 3. Cyfartaledd cost addasiadau yn ôl math o addasiad (a)

Math o Addasiad	Cyfartaledd (Cymedrig) Cost fesul Addasiad £	Cost Canolrif fesul Addasiad ⁸ £	Cost Isaf a Gofnodwyd £	Cost Uchaf a Gofnodwyd £
Mân e.e. rheiliau gfael rheiliau grisiau.	166.44	94.50	0	21979.00
Canolig e.e. addasiadau fel cawod i gerdded i mewn iddi, lifftiau grisiau a rampiau.	4500.99	3870.17	0	38,288.90
Mawr e.e. addasiadau sy'n galw am newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	18,703.27	16,895.76	3546	36,000.00

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru
(a) Ar sail data am 11,751 o addasiadau

- Fel y gellid disgwyl y math 'mân' addasiad a gofnododd y costau cymedrig a chanolrif isaf a'r 'mawr' a gofnododd yr uchaf.
- Fodd bynnag, cofnodwyd y gost fwyaf o ran addasiad yng nghyswllt addasiad a gategoreiddiwyd gan y darparwr fel un 'canolig' yn costio £38,288 (o'i gymharu â'r gost uchaf ar gyfer addasiad 'mawr' sef £36,000). Gallai hyn fod oherwydd i'r addasiad gael ei osod yn y categori anghywir, neu o bosibl fod set o addasiadau canolig wedi'u cwblhau ar gyfer yr un eiddo ac wedi'u cyfrif fel un.
- Y gost uchaf a gofnodwyd am 'fân' addasiad oedd £21,979. Unwaith eto, gallai hyn fod oherwydd bod yr addasiad wedi'i gategoreiddio'n anghywir. Mae 19 o addasiadau eraill wedi'u rhoi yn y categori 'mân' ond a gostiodd dros £5,000.

⁸ Mae'r cyfartaledd canolrif (h.y. y gwerth canol) yn gynrychiolaeth decach o gost arferol addasiad. Mae hyn oherwydd nad yw dosbarthiad y costau'n gymesur – ceir nifer fach o addasiadau sy'n costio'n sylweddol fwy nac eraill, sydd o'r herwydd yn sgiwio'r cyfartaledd cymedrig.

5. Amser a Gymerwyd

Tabl 4. Cyfartaledd nifer y dyddiau o ddyddiad canfod yr angen am addasiad i ddyddiad cwblhau'r addasiad, yn ôl y math o addasiad (a)

Math o Addasiad	Cyfartaledd (Cymedrig) nifer y dyddiau o ddyddiad canfod yr angen am addasiad	Nifer canolrif y dyddiau o ddyddiad canfod yr angen am addasiad	Nifer isaf o ddyddiau a gofnodwyd	Nifer uchaf o ddyddiau a gofnodwyd
Mân e.e. rheiliau gafael rheiliau grisiau.	14.6	7	0	448
Canolig e.e. addasiadau fel cawod i gerdded i mewn iddi, lifftiau grisiau a rampiau.	143.6	119	0	1136
Mawr e.e. addasiadau sy'n galw am newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniadau iddo.	314.6	232	5	1104

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Ar sail data am 10,820 o addasiadau

- Mae nifer canolrif y dyddiau o ganfod yr angen hyd at gwblhau ar eu hisaf, fel y gellid disgwyl, ar gyfer addasiadau 'mân'.
- Mae'r nifer uchaf o ddyddiau ar gyfer cwblhau yn uwch na blwyddyn ym mhob categori. Ond nid yw'r data'n rhoi manylion a oedd hyn oherwydd oedi o ddewis y cwsmer, neu oedi na ellid ei osgoi, er enghraifft rheolaeth gynllunio.

Tabl 5. Cyfartaledd nifer y dyddiau o ddyddiad canfod yr angen am addasiad i ddyddiad cwblhau'r addasiad, yn ôl y math o ddarparwr (a) (b)

Categori Darparwr/Cyflwynwr	Cyfartaledd (Canolrif) nifer y dyddiau fesul addasiad	Nifer cymedrig o ddyddiau fesul addasiad	Nifer isaf o ddyddiau a gofnodwyd	Nifer uchaf o ddyddiau a gofnodwyd
Dim darparwr wedi'i enwi	20	9	0	1104
Gofal a Thrwsio i gyd	11	6	0	1136
Awdurdod Lleol	73	34	0	912
Cymdeithas Tai	119	115	0	608
LSVT	64	21	1	582
Cyfanswm	23	8	0	1136

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Ar sail data am 10,828 o addasiadau

(b) Mae'r categori Awdurdodau Lleol yn cynnwys 5 darparwr, y categori Cymdeithasau Tai yn cynnwys 11 darparwr a 2 ddarparwr LSVT.

- Cyfartaledd cymedrig yr amser a gymerir rhwng dyddiad canfod yr angen am addasiad i ddyddiad cwblhau'r addasiad yw 23 diwrnod, a'r cyfartaledd canolrif yw 8 diwrnod.
- O'i gymharu, cofnododd Gofal a Thrwsio gyfartaledd cymedrig o 11 diwrnod a chyfartaledd canolrif o 6 diwrnod.
- Cofnododd asiantaethau Gofal a Thrwsio y nifer uchaf o ddyddiau a gymerwyd i gyflawni addasiad, sef 1,136 o'i gymharu â 582 diwrnod ar gyfer LSVT (ar sail data o 2 LSVT).
- Yr oedd 1,572 o gofnodion (13 y cant) nad oeddynt yn cynnwys cofnod o ddau ddyddiad ac felly nid oedd modd cyfrifo'r amser a gymerwyd i gyflawni addasiad o'r cofnodion hyn.


Tabl 6. Cyfartaledd nifer y dyddiau o ddyddiad canfod yr angen am addasiad i ddyddiad cwblhau'r addasiad, yn ôl cyfanswm cost yr addasiad (a)

Cyfanswm cost yr addasiad	Cyfartaledd (Canolrif) nifer y dyddiau fesul addasiad	Nifer cymedrig o ddyddiau fesul addasiad	Nifer isaf o ddyddiau a gofnodwyd	Nifer uchaf o ddyddiau a gofnodwyd
£s	Number			
Up to £50	12	0	0	315
£50.01 - £100	10	0	0	448
£100.01 - £250	17	0	0	373
£250.01 - £500	23	0	0	274
£500.01-£1000	48	1	1	279
£1000.01-£2500	94	3	3	509
£2500.01-£5000	150	8	8	1,136
£5000.01-£7500	131	0	0	377
£7500.01-£10,000	227	0	58	683
> £10,000	284	58	5	1,104
Total	23	0	0	1,136

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Ar sail data am 10,823 o addasiadau Ar gyfer 5 addasiad cynhwyswyd yr amser ond nid y gost

Siart 2. Cyfartaledd nifer y dyddiau o ddyddiad canfod yr angen am addasiad i ddyddiad cwblhau'r addasiad, yn ôl cyfanswm cost yr addasiad (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Ar sail data am 10,823 o addasiadau. Ar gyfer 5 addasiad cynhwyswyd yr amser ond nid y gost

- Mae cyfartaledd yr amser a gymerir i gwblhau addasiad yn tueddu i gynyddu wrth i gostau gynyddu.
- Ar gyfer addasiadau'n costio £50 neu lai, cyfartaledd yr amser a gymerwyd oedd oddeutu 12 diwrnod ac ar gyfer y rhai'n costio £100 neu lai, oddeutu 10 diwrnod. Fodd bynnag, yr oedd addasiadau a oedd yn costio £10,000 neu fwy yn cymryd ar gyfartaledd oddeutu 284 o ddyddiau i'w cwblhau (Tabl 7, Siart 2).

Tabl 7. Nifer o addasiadau yn ôl math o ddarparwr a chyfanswm cost

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru (a) (b)

Categori Darparwr	≤£50	£50.01 - £100	£100.01 - £250	£250.01 - £500	£500.01 - £1000	£1000.01 - £2500	£2500.01 - £5000	£5000.01 - £7500	£7500.01 - £10,000	>£10,000	Cyfanswm
Dim darparwr wedi'i enwi	699	1789	1650	612	111	37	38	20	7	18	4981
Gofal a Thrsio i gyd	981	2086	1621	550	59	31	7	8	5	0	5348
Awdurdod Lleol	71	124	267	146	86	99	150	64	18	38	1065
Cymdeithas Tai	8	23	58	45	25	68	117	37	7	12	400
LSVT	2	18	15	11	7	4	9	5	2	1	74
Cyfanswm	1761	4040	3611	1366	288	239	321	134	39	69	11868

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

- (a) Ar sail data am 11,868 o addasiadau.
- (b) Mae'r categori Awdurdodau Lleol yn cynnwys 5 darparwr, y categori Cymdeithasau Tai yn cynnwys 11 darparwr a 2 ddarparwr LSVT.

- Asiantaethau Gofal a Thrwsio oedd yn tueddu i gyflawni'r nifer uchaf o addasiadau cost isel gyda 981 ar £50 neu lai ac 2,086 rhwng £50 a £100.
- Awdurdodau Lleol a gyflawnodd y nifer uchaf o addasiadau cost uchel o £10,000 neu fwy, sef 33
- Cyflawnwyd cyfanswm o 413 o addasiadau gan ddarparwyr lle na chofnodwyd y gost.

6. Cyllid

Mae'r tablau a'r siartiau canlynol yn dangos nifer yr addasiadau a gyflawnwyd yn ôl y math o gyllid a ddarparwyd. Bydd y rhain yn cynnwys y ffrydiau cyllido canlynol:

- Y Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys (RRAP) - Mae'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers 2002/03 ac yn cael ei darparu drwy Asiantaethau Gofal a Thrwsio. Mae'r rhaglen yn darparu ar gyfer mân addasiadau fel rampiau a rheiliau, i alluogi pobl i ddychwelyd yn ddiogel i'w cartrefi eu hunain yn dilyn cael eu rhyddhau o ysbyty neu i atal yr angen am fynd i'r ysbyty neu ofal preswyl. Caiff y rhaglen ei chyllido gan Llywodraeth Cymru ac mae'n unigryw i Gymru.
- Galluogi - cyflwynwyd cyllid Galluogi yn 2016/17 er mwyn i awdurdodau lleol ddatblygu darpariaethau addasu yn eu hardal mewn partneriaeth gyda'u rhanddeiliaid allweddol. Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu adnoddau ychwanegol i helpu pobl i fyw'n annibynnol.
- Cyllid Awdurdodau Lleol (eraill) - mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i ariannu gwaith ar gyfer addasiadau i dai na wneir darpariaeth ar eu cyfer gan gyllid Llywodraeth Cymru.
- [Y Gronfa Gofal Integredig](#) (ICF) - Cafodd y Gronfa Gofal Integredig (ICF), sydd wedi cael ei hail-frandio, ei sefydlu yn 2014-15 i gynorthwyo pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, osgoi mynd i mewn i ysbyty ac atal oedi cyn rhyddhau o ysbyty. Mae hefyd yn anelu at yrru gweithio mewn partneriaeth a

darparu gwasanaethau integredig ar draws iechydd, gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector. Cafodd y gronfa ei ehangu yn 2016-17 i gefnogi datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar gyfer grwpiau eraill o bobl.

- Cyllid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) - Gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig benderfynu ariannu rhai mathau o addasiadau tai drwy eu hadnoddau eu hunain.
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) - yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol dan delerau Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae'r rhain yn grantiau gorfodol sydd ar gael i helpu pobl anabl a phobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Gall perchen-feddianwyr, landlordiaid yn ogystal â thenantiaid awdurdodau lleol, rhentu preifat a chymdeithasau tai wneud cais am DFG. Mae grantiau DFG yn seiliedig ar brawf modd ac mae cyfraniad ymgeiswyr at gost y gwaith yn dibynnu ar asesiad lefel eu hincwm, eu cynilion a'u gwariant. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal yr asesiadau hyn. Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant anabl wedi'u heithrio rhag profion modd. Cyn cyhoeddi DFG, rhaid i awdurdod tai lleol fodloni ei hun bod y gwaith yn 'angenrheidiol ac yn briodol' i gwrdd ag anghenion yr unigolyn anabl neu hŷn, a'u bod yn 'rhesymol ac ymarferol' gan ddibynnu ar oedran a chyflwr yr eiddo.
- [Grantiau Addasiadau Ffisegol \(PAGS\) <https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/physical-adaptations/?lang=en>](https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/physical-adaptations/?lang=en) - Mae'r Rhaglen Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAG) yn gynllun ar sail galw gyda chyllid o oddeutu £8 miliwn y flwyddyn. Caiff ceisiadau PAG eu hariannu o Raglen Grant Tai Cymdeithasol (SHG) Llywodraeth Cymru. Mae PAG yn darparu cyllid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wneud gwaith addasu i eiddo ar gyfer tenantiaid gydag angen sydd wedi'i adnabod ar gais therapydd galwedigaethol.
- Eraill - Pob ffynhonnell arall o gyllid ar gyfer addasiadau tai nas rhestrwyd.

Tabl 8. Nifer a chanran yr addasiadau a gyflawnwyd yn ôl ffrwd gyllido (a)

Ffrwd Gyllido	Addasiadau	
	Nifer	y cant
RRAP	5,420	43.8
Lywodraeth Cymru (GALLUOGI)	2,568	20.8
Cyllid Awdurdodau Lleol (eraill)	2,166	17.5
Eraill	691	5.6
ICF	506	4.1
RSL Cyllid	435	3.5
Cyllid Awdurdodau Lleol (gorfodol DFGs)	332	2.7
Lywodraeth Cymru (PAG)	253	2.0
Cyfanswm	12,371	100.0

(a) Ar sail data am 12,371 o addasiadau. Ar gyfer y 28 addasiad sy'n weddill, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am gyllido.

- O'r 12,371 o addasiadau y darparwyd gwybodaeth cyllido ar eu cyfer, cafodd y ganran fwyaf (44 y cant) eu hariannu drwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys (RRAP).
- Cafodd un o bob pump (21%) eu hariannu drwy GALLUOGI ac ariannwyd 18 y cant arall gan awdurdodau lleol y tu allan i'r system DFG orfodol.
- Yr oedd cyllid RSL ac ICF ill dau yn cyfrif am oddeutu 4 y cant o'r 12,372 o addasiadau, yr oedd DFG gorfodol yn cynrychioli oddeutu 3 y cant a PAG yn cynrychioli 2 y cant.
- Cafodd 691 (6 y cant) o addasiadau eu hariannu drwy ddulliau 'eraill' a allai fod yn sefyllfaoedd lle y mae'r unigolyn sy'n derbyn yr addasiad wedi talu am y gwaith yn uniongyrchol eu hunain neu drwy gynllun 'tasgmon' ('handyperson') a gynigir gan rai sefydliadau. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am ffynhonnell cyllido 28 o addasiadau.

Tabl 10. Cyfartaledd cost addasiadau yn ôl math o gyllid


	Ayfartaledd Cost	Highest Cost	Lowest Cost	£s
Awdurdodau Lleol DFG	6,905	38,289		177
Awdurdodau Lleol (eraill)	369	30,477		15
ICF	154	7,754		18
RRAP	128	4,015		1
PAG	2,677	45,258		39
RSL	1,429	21,980		24
GALLUOGI	311	8,785		8

Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

- Yr oedd cyfartaledd cost addasiadau'n amrywio o oddeutu £6,900 ar gyfer addasiadau gorfodol dan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl i ddim ond £128 am addasiadau a ariannwyd drwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys.

7. Ffynhonnell cyfeiriadau

Siart 3. Canran addasiadau yn ôl ffynhonnell y cyfeiriad (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru


(a) Ar sail 12,283 o addasiadau y darparwyd gwybodaeth am ffynhonnell y cyfeiriad.

- Adroddir bod y gyfran fwyaf o'r 12,283 o addasiadau (lle y darparwyd ffynhonnell cyfeiriad) yn rhai yn tarddu o Therapyddion Galwedigaethol, sef 46 y cant (5,506 o addasiadau). Tîmau o weithwyr proffesiynol rhyddhau o ysbyty oedd ffynhonnell 14 y cant arall (1,678 o addasiadau) a Gofal a Thrwsio oedd yn gyfrifol am 11 y cant (1,347 o addasiadau).

- Cofnodwyd awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol fel ffynhonnell cyfeiriadau yn 10 y cant o achosion (1,273 a 1,221 o addasiadau yn y drefn honno) ac roedd 7 y cant (850 o addasiadau) o ganlyniad i hunangyfeirio.
- Yr oedd gweddill y ffynonellau cyfeiriadau yn cynnwys rhai a gofnodwyd fel 'Eraill' a landlordiaid cymdeithasol, y ddau yn gyfrifol am oddeutu 1 y cant o'r 12,283 o addasiadau tra y cofnodwyd Meddygon Teulu a Therapyddion Galwedigaethol mewn ysbytai fel ffynhonnell cyfeirio ar gyfer llai nag 1 y cant (36 a 23 o addasiadau) (Siart 3).

8. Lefelau Boddhad Cwsmeriaid

Siart 4. Lefelau boddhad cwsmeriaid gyda'r gwaith yn gyffredinol (a)




Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru
(a) Ar sail 2,709 o ymatebion.

- Mae'r siart uchod yn dangos lefelau cyffredinol bodlonrwydd gyda'r gwaith addasu a wnaed. Fodd bynnag, o'r 12,399 o addasiadau, yn 6,902 o achosion ni chofnodwyd ymateb bodlonrwydd cleientiaid ac mewn 2,764 achos arall cofnodwyd yr ymateb fel anhysbys neu ddim yn berthnasol.
- O'r 2,709 o ymatebion a dderbyniwyd cofnododd 83 y cant eu bod yn fodlon iawn ar y gwaith yn gyffredinol, yr oedd 16 y cant arall yn fodlon a nododd 1 y cant (15 ymateb) eu bod yn anfodlon neu'n anfodlon iawn.

9. Deiliadaeth

Siart 5. Canran addasiadau yn ôl deiliadaeth eiddo (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru


(a) Ar sail gwybodaeth a ddarparwyd ar gyfer 12, 371 o addasiadau

- O'r 12, 371 o addasiadau (lle y cofnodwyd deiliadaeth) cafodd y mwyafrif (88 y cant, 10,911 o addasiadau) eu gwneud yn nhai perchen-feddianwyr. Gwnaed 5 y cant arall (266 o addasiadau) mewn tai a oedd yn eiddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a 3 y cant (352 addasiad) mewn cartrefi a oedd yn eiddo i awdurdodau lleol.
- Gwnaed 2 y cant (266 o addasiadau) mewn cartrefi rhentu preifat a 2 y cant (236 o addasiadau) mewn cartrefi ym mherchnogaeth sefydliadau Trosglwyddiadau Gwirfoddol Mawr (LSVT).

10. Cyfraniad Ariannol

- O'r 69 cofnod o addasiadau a oedd yn golygu cyfraniad ariannol, cafodd y mwyafrif, 97 y cant, eu gwneud yn nhai perchen-feddianwyr. Dim ond 2 y cant oedd mewn tai a oedd yn eiddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac 1 y cant mewn cartrefi a oedd yn eiddo i awdurdodau lleol.

Siart 6. Cyfraniad Ariannol yn ôl maint yr addasiad (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru


(a) Ar sail 69 o addasiadau lle y cofnodwyd maint yr addasiad a'r cyfraniad ariannol.

- Yr oedd y canrannau mwyaf o gyfraniadau ariannol ar gyfer addasiadau canolig a mân addasiadau sef 48 y cant a 40 y cant yn y drefn honno. Yr oedd addasiadau mawr a rhai mân iawn yn cynrychioli dim ond 6 y cant o addasiadau a oedd yn cynnwys cyfraniadau ariannol. Dylid nodi fodd bynnag fod hyn ar sail dim ond 69 o addasiadau lle y cofnodwyd maint yr addasiad a'r cyfraniad ariannol.

11. Asesiad gan Therapyddion Galwedigaethol

- Gofynnwyd i ddarparwyr gofnodi a oedd y gwaith addasu'n galw am asesiad gan therapydd galwedigaethol neu Asesydd Dibynadwy ai peidio.

Siart 7. Addasiadau yn galw am asesiad (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru

(a) Ar sail 11,852 o addasiadau lle y cofnodwyd gwybodaeth am asesiad gofynnol.

- Yn 11,852 o achosion nododd y darparwr a oedd asesiad yn ofynnol ar gyfer yr addasiad ai peidio. Yn 66 y cant o achosion (7,882 o addasiadau) nid oedd angen asesiad. Mewn chwarter o achosion (2,997 o addasiadau) yr oedd asesiad gan therapydd galwedigaethol yn ofynnol ac mewn 8 y cant o achosion eraill (940 o addasiadau) yr oedd asesiad gan asesydd dibynadwy yn ofynnol. Yr oedd mathau eraill o asesiad yn ofynnol ar gyfer 33 o addasiadau (0.3 y cant) (Siart 7).
- Roedd dros dri chwarter yr addasiadau⁹ (77 y cant) a oedd yn galw am asesiad gan therapydd galwedigaethol yn addasiadau mân neu fân iawn. Yr oedd 22 y cant arall yn addasiadau canolig eu maint a dim ond 1 y cant (33 addasiad) oedd yn rhai mawr.


12. Effaith ar ryddhau o ysbyty

- Mewn 12,220 o achosion cofnododd y darparwr a oedd yr addasiad wedi galluogi rhyddhau o ysbyty ai peidio. O'r rhain, mewn 14 y cant o achosion (1,744 o addasiadau) yr oedd y gwaith a wnaed wedi galluogi'r derbynnydd i gael ei

⁹ Ar sail 2,982 o addasiadau lle yr oedd therapydd galwedigaethol yn ofynnol a chategori/maint yr addasiad hefyd wedi'i gofnodi.

ryddhau o'r ysbyty. Yn 99 y cant o'r achosion hyn¹⁰ yr oedd yr addasiad yn un mân neu fân iawn.

Siart 8. Addasiadau yn galluogi rhyddhau o ysbyty yn ôl ffrwd gyllido (a)



Ffynhonnell: Astudiaeth beilot Addasiad Gwell Llywodraeth Cymru
(a) Ar sail 1,675 o addasiadau.

- O'r 1, 744 o addasiadau a oedd yn galluogi rhyddhau o ysbyty, yr oedd y mwyafrif, 69 y cant (1,198 addasiad), wedi'u cyllido drwy'r Rhaglen Addasiadau Ymateb Brys (RRAP), 16 y cant (279 addasiad) wedi'u cyllido drwy'r [Gronfa Gofal Integredig](#) (ICF) ac 8 y cant (139 addasiad) gan gyllid awdurdodau lleol ar wahân i Grantiau Cyfleusterau I'r Anabl gorfodol (DFG). Yr oed Rhaglen GALLUOGI Llywodraeth Cymru wedi ariannu 5 y cant (86 addasiad) ac RSL wedi ariannu ychydig dros 1 y cant (21 addasiad).
- Yr oedd cyllid DFG gorfodol awdurdodau lleol, mathau eraill o gyllid heb eu nodi a system Grantiau Addasiadau Ffisegol Llywodraeth Cymru (PAG) gyda'i gilydd yn ariannu llai nag 1 y cant o addasiadau a oedd yn galluogi rhyddhau o ysbyty sef 9, 8 a 4 addasiad yr un.

13. Casgliadau / Gwersi a Ddysgwyd:

Mae'r casgliadau allweddol o'r ymarfer hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mae dros 12,00 o ffurflenni data yn ymateb sylweddol ac yn tynnu sylw at y gwaith caled a wnaed gan ddarparwyr gwasanaeth ar gasglu a chyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru.

¹⁰ Ar sail 1,675 o addasiadau a alluogodd ryddhau o ysbyty a'r cofnododd wedi darparu gwybodaeth am gategori/maint yr addasiad.

- Fodd bynnag, oherwydd bylchau o ran cwblhau ffurflenni data a chyfyngiadau wedi hynny, byddai'n anghywir dod i gasgliadau manwl ynghylch sut y mae addasiadau tai yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

Mae'r gwersi allweddol o'r ymarfer hwn yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw fformat ar sail papur yn ddull effeithiol nac effeithlon o gasglu data.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i wella'r ffordd y mae'n casglu data a chyfathrebu gofynion yn fwy effeithlon i ddarparwyr gwasanaeth.
- Mae angen egluro ymhellach y diffiniad o ran mân addasiadau, addasiadau canolig a mawr er mwyn galluogi mwy o gysondeb o ran sut y caiff addasiadau tai eu categorio.

14. Y Camau Nesaf

- Yn dilyn trafodaethau gyda'r Grŵp Llywio Addasiadau tai (a elwid gynt yn Grŵp Llywio GALLUOGI), a gyda chymorth grŵp gorchwyl a gorffen gyda rhanddeiliaid allweddol, mae swyddogion wedi cyflwyno canllawiau newydd, templed taenlen electronig a dogfen 'Cwestiynau Cyffredin' i ddarparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar ddarparwyr gwasanaeth i gasglu'r data'n fwy effeithiol a chyson. Bydd y templed a'r canllawiau newydd hyn yn casglu data o Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd adborth yn cael ei geisio gan ddarparwyr gwasanaeth a thynnir sylw darparwyr gwasanaeth at unrhyw newid sylweddol cyn iddo ddigwydd fel eu bod yn cael digon o amser i baratoi.
- Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar hyn o bryd ar 'Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai'¹¹ i sicrhau y caiff Addasiadau Tai eu cyflawni ar sail gyson a theg. Mae'r safonau gwasanaeth hefyd yn cynnig diffiniadau ar gyfer gwahanol fathau o addasiadau (Mân Addasiadau, Addasiadau Canolig a Mawr). Anelir at gyhoeddi'r safonau gwasanaeth ym mis Ebrill 2019, fel y bydd y diffiniadau diwygiedig yn cymryd lle'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd.
- Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd y gall agwedd bodlonrwydd cwsmeriaid addasiadau tai gael ei symleiddio ymhellach. Bydd y data a gesglir o Ebrill 2018 hyd 31 Mawrth 2019 yn darparu tystiolaeth bellach ar y problemau a'r bylchau o ran casglu arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid ac yn goleuo unrhyw newidiadau a wneir.

¹¹ <https://beta.gov.wales/housing-adaptations-service-standards>